

Bywgraffiad Llawn

Mae'r delynores Gymreig **Gwenllian Llŷr** yn prysur ennill cydnabyddiaeth rhyngwladol am ei pherfformiadau carismatig ac egniol. Yn 2013, enillodd Gwenllian wobwr yng Nghystadleuaeth Rhyngwladol UDA yn Bloomington, gan gael ei chanmol am ei dawn cerddorol a'i gallu i gysylltu â chynulleidfaoedd. Mae hi hefyd wedi ennill nifer o wobrau yn fwy lleol, gan gynnwys y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012, Gwobr Goffa Len Lickorish yn y Royal Over-Seas League 2018, yn ogystal a chael ei henwi fel Artist gyda City Music Foundation yn 2017.

Mae gyrfa Gwenllian wedi ei harwain ar draws y byd i berfformio mewn lleoliadau mawreddog gydag artistiaid adnabyddus, megis Rebecca Evans, Imogen Cooper, Al Jarreau, Matthew Rees a Bryn Terfel. Mae hi'n perfformio'n aml fel unawdydd gyda cherddorfeydd, gan ei galluogi i rannu gwledd o gerddoriaeth telyn gyda fwy o gynulleidfaoedd. Bu Gwenllian yn perfformio fel unawdydd gwâdd gyda Côrddydd ar lwyfan Zankel Hall yn Carnegie Hall, a mwynhâd mawr oedd cael perfformio cerddoriaeth Gymreig ar lwyfan mor adnabyddus. Yn ogystal â pherfformiadau diweddar o concerti i'r delyn gan Ginastera, Mozart a Debussy, bu Gwenllian yn teithio Prydain gan berfformio cyngherddau unawdol er mwyn hybu rhyddhad ei CD cyntaf, 'O Wyll i Wawr'.

Cafodd Gwenllian y bleser o astudio gydag athrawon gwych mewn rhai o'r colegau gorau yn y bydd, gan ennill graddau o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Ysgol Juilliard ac yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain. Yn ogystal â nifer o ysgoloriaethau a chefnogaeth ariannol, enillodd Gwenllian nifer o anrhydeddau eraill yn ystod ei hastudiaethau, gan gynnwys Gwobr William Schuman am gyflawniad ac arwainyddiaeth rhagorol yng ngherddoriaeth gan Ysgol Juilliard. Cymerodd hi fantais lawn o'r cyfle i weithio gyda nifer o artistiaid gwahanol yn ystod ei hastudiaethau, gan ddatblygu ei dealltwriaeth a'i hoffder o gerddoriaeth siambr ac i ymestyn y repertwâr telyn. Fel eiriolwr cerddoriaeth gyfoes, mae Gwenllian wedi gweithio gyda nifer o gyfansoddwyr dros y ddegawd ddiwethaf, gan helpu cerddorion a chynulleidfaoedd i ddeall hyblygrwydd y delyn, gan ddiweddu mewn nifer o berfformiadau cyntaf y byd. Yn ystod ei blwyddyn olaf yn Ysgol Juilliard, bu Gwenllian yn gweithio gyda'r gyfansoddwraig Sayo Kosugi a'r dawnsiwr a'r coreograffydd Eve Jacobs ar *Nebula, Blooming* ar gyfer telyn aawns. Bu hi hefyd yn gweithio ar gerddoriaeth siambr gyda disgyblion cyfansoddi Prifysgol Caerdydd, yn gyntaf gyda'r fflwytydd Lisa Nelsen ar y prosiect *'Music is Fragile?'*, gan ddiweddu gyda pherfformiad byd cyntaf yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ymysg y gwaith celf wnaeth ysbrydoli'r cyfansoddiadau, ac yna gyda'r soprano Sarah Dacey yn y prosiect *'Coma Notes'*, gyda pherfformiad byd cyntaf ym Mhrifysgol Caerdydd gyda'r bardd, James Nash.

Mae byd cerddorol Gwenllian yn ymestyn ymhellach na'r llwyfan, fel athrawes ac fel cyfansoddwr. Yn ogystal a'i gyrfa berfformio prysur, mae Gwenllian yn addysgu'n breifat, ar gyrsiau cerddoriaeth, yng Ngoleg y Brenin yn Llundain ac yn Ysgol St. Michael's yn Otford. Mae hi hefyd yn gweithio i'r elusen Live Music Now, a gafodd ei sefydlu gan Yehudi Menuhin, sy'n helpu ystod eang o bobl sydd heb fynediad i gerddoriaeth byw.

Bydd y flwyddyn ganlynol yn llawn datblygiadau cyffroes, gan gynnwys rhyddhau CD arall, cyhoeddi mwy o gerddoriaeth i'r delyn a pherfformio ledled Prydain. Am fwy o wybodaeth am berfformiadau a phrosiectau diweddar, ymwelwch a'i gwefan: www.GwenllianLlyr.com.